**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 YN FLAENOROL)**

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLESIANT (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 GYNT) A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 9 GORFFENNAF 2025 AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| C Davies | GC Haines | D M Hughes |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | S J Bletsoe | S Easterbrook | P Ford |
| M Lewis | R Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RM James, P W Jenkins, W J Kendall and J Llewellyn-Hopkins

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Kelvin Barlow | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| Michelle King | Rheolwr Grŵp – Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Integredig |
| Jason Howells | |
| Matt Jenkins | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Integredig Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg |
| Julie Denley | Cyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol, Iechyd Cymunedol a Meddwl – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim.

**36. Cymeradwyo'r Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 2 dyddiedig 1 Mai 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Gorffennaf 2025 |

**37. Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gydag Aelod o'r Cabinet, Swyddogion a gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol ynghyd â cheisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. Ailadroddodd y Pwyllgor yr argymhelliad a wnaed ganddo ar 1 Mai 2025, gan fynegi pryder ynghylch nifer yr acronymau a ddefnyddir mewn adroddiadau sy'n achosi rhwystr i ddarllenwyr rhag deall adroddiadau yn llawn a'r termau a gynhwysir ynddynt, ac **argymhellodd** y dylai |

| | |
|---|---|
| | adroddiadau yn y dyfodol gynnwys rhestr esboniadol o dalfyriadau i gynorthwyo'r Pwyllgor a'r cyhoedd. At hynny, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ysgrifennu adroddiadau mewn Cymraeg plaen gan osgoi iaith ddianghenraid o gymhleth.<br><br>2. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch nifer y lefelau o lywodraethu a nodir yn Ffigur 2 y Cytundeb gan bwysleisio sut y byddai'n golygu cyfarfodydd lluosog o'r un bobl ac **argymhellodd** y dylid ystyried gostwng nifer y lefelau ac, yn benodol, cael gwared ar y Bwrdd Arweinyddiaeth Integredig.<br><br>Fodd bynnag, o ystyried y gallai llais defnyddiwr y gwasanaeth fynd ar goll pe câi lefel lywodraethu'r Bwrdd Arweinyddiaeth Integredig ei dileu, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ymdrin â hyn mewn lefel arall o lywodraethu.<br><br>3. Mynegodd y Pwyllgor bryder, er gwaethaf dibynnu ar randdeiliaid eraill, nad oedd llawer o gyfeiriad at sefydliadau trydydd sector a gwirfoddol yn y Cytundeb, a chafodd ei gynghori ynghylch yr heriau posibl o ddenu cyllid pe na cheid cyfeiriad atynt. Felly, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid disgrifio sefydliadau'r trydydd sector a'r sefydliadau gwirfoddol yn llawn yn y Cytundeb.<br><br>4. Mynegodd y Pwyllgor bryder bod 'Allbwn' wedi cymryd lle 'Canlyniadau' yn y Fframwaith Canlyniadau a Pherfformiad a Mesur (Atodiad 1) ac **argymhellodd** y dylid mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod yr ystyr yn gliriach.<br><br>5. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y gwaith arloesol a thrawsnewidiol sy'n digwydd yng Nghyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a bod model cyflawni'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn cael ei efelychu fel arfer gorau ar draws yr awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth ac **argymhellodd** y dylid anfon llythyr at y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cydnabod y gwaith ac yn diolch iddi hi a'i thîm.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>6. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i wybodaeth ynghylch y diwrnod gwybodaeth i Aelodau, sy'n cael ei drefnu gan y Bartneriaeth Ranbarthol ac sy'n tynnu sylw at y trefniadau gwaith rhanbarthol, gael ei rhannu gyda'r Aelodau unwaith y bydd y diwrnod wedi cael ei drefnu. |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | 7. **Gofynnodd** yr Aelodau am i'r sleidiau PowerPoint a'r fideo a rannwyd gyda'r Pwyllgor yn ystod y cyfarfod gael eu rhannu gyda'r Aelodau.<br><br>8. **Gofynnodd** y Pwyllgor am yr astudiaethau achos oedd yn dangos osgoi mynd i'r ysbyty mewn achosion o anghenion cymhleth a’r pryderon diogelu y cyfeiriwyd atynt gan y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cymunedol Integredig – Rhwydweithiau Cymunedol.<br><br>9. **Gofynnodd** y Pwyllgor am fanylion aelodaeth y Bwrdd Arweinyddiaeth Integredig. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Gorffennaf 2025 |

**38. Adroddiad Enwebu Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Enwebu’r Cynghorydd Della Hughes i gynrychioli Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles fel un wedi ei gwahodd i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Gorffennaf 2025 |

**39. Diweddariad y Flaenraglen Waith**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith (RhG) ddrafft yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod, nododd y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nododd yr adroddid am y Flaenraglen Waith wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er gwybodaeth ynghyd â rhai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill, yn dilyn eu hystyried yn y cylch hwn o gyfarfodydd Pwyllgor. |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | 1. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i'r Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol gael ei ychwanegu at ei Flaenraglen Waith i'w adolygu ymhen 12 mis. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Gorffennaf 2025 |

**40. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 9 Gorffennaf 2025 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen yma os gwelwch yn dda

Daeth y cyfarfod i ben am 12:40.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**